# Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

**2009 mccc 1**

## RHAN 3

### GWASANAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADDYSG, HYFFORDDIANT A SGILIAU

*Llwybrau Dysgu*

**44 Llwybrau dysgu: dehongli**

Yn yr adran hon ac yn adran 43—

**[**[F1]mae i "awdurdod lleol yng Nghymru" yr ystyr a roddir i "*local authority in Wales*" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996;**]**

mae i "disgybl cofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered pupil" yn adran 434 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56);

ystyr "disgybl perthnasol" ("*relevant pupil*") yw un o ddisgyblion cofrestredigysgol a gynhelir;

ystyr "myfyriwr perthnasol" ("*relevant student*") yw person—

(a) sy'n cael y rhan fwyaf o'i addysg mewn sefydliad, neu o dan drefniadau a wnaed gan gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw; a

(b) nad yw wedi cyrraedd pedwar ar bymtheg oed neu unrhyw oedran yn ddiweddarach yn ei oes a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "pennaeth sefydliad" ("*principal*") yw pennaeth neu brifathro neu brifathrawes arall sefydliad;

ystyr "sefydliad" ("*institution*") yw sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, ac, o ran myfyriwr perthnasol, mae'n golygu'r sefydliad y mae ei gorff llywodraethu'n gyfrifol am ddarparu, neu drefnu i ddarparu, y cyfan neu'r rhan fwyaf o addysg y myfyriwr perthnasol hwnnw;

mae i "sefydliad yn y sector addysg bellach" yr ystyr a roddir i "institution within the further education sector" yn Neddf Addysg 1996 (p.56); ac

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, Adran 44 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) unrhyw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan **[**[F2]awdurdod lleol**]** yng Nghymru, neu

(b) unrhyw ysgol arbennig gymunedol [F3]... a gynhelir gan **[**[F2]awdurdod lleol**]** yng Nghymru ac nad yw'n wedi'i sefydlu mewn ysbyty,

ac, o ran disgybl perthnasol, mae'n golygu'r ysgol a gynhelir y mae'n ddisgybl cofrestredig ohoni.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 44 wedi eu mewnosod (5.5.2010) gan Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1148), erglau. 1, **3(3)**

**F2** Geiriau yn Measure wedi eu hamnewid (5.5.2010) gan Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1148), **ergl. 3(2)**

**F3** Geiriau yn a. 44 wedi eu hepgor (1.10.2013) yn rhinwedd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 26(2)**; O.S. 2013/1800, ergl. 3(j)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 44 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 49(2)**

**I2** A. 44 mewn grym ar 7.12.2009 gan O.S. 2009/3174, **ergl. 2(1)(o)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, Adran 44 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– s. 43(7) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 25(3)